

At Weinidogion Cymru,

Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, dyma adroddiad blynyddol **Cyngor Sir Ceredigion** ar gyfer y flwyddyn 2024-25.

Y camau a gymerwyd i hybu teithiau teithio llesol	Gwnaeth Tîm Diogelwch y Ffordd Cyngor Sir Ceredigion gyflwyno hyfforddiant lefel 1 a 2 y Safonau Beicio Cenedlaethol i 464 o ddisgyblion cynradd. Hefyd cyflwynwyd hyfforddiant lefel 3 y Safonau Beicio Cenedlaethol i 20 o bobl (yn oedolion a phlant). Cyflwynwyd hyfforddiant Kerbcraft i 383 o ddisgyblion cynradd. Mae Swyddog Siwrneiau Actif Sustrans wedi parhau i weithio gydag ysgolion yng Ngheredigion fel rhan o Raglen Siwrneiau Actif Sustrans (mae Sustrans wedi newid eu enw yn ddiweddar i 'Walk Wheel Cycle Trust'). Mae'r Swyddog Siwrneiau Actif Sustrans wedi creu Cynlluniau Siwrneiau Ysgol Actif gyda'r ysgolion canlynol: Ysgol Gynradd Llanfarian Ysgol Gynradd Myfenydd (Llanrhystud) Ysgol Gynradd Aberaeron Ysgol Gynradd Aberporth Mae Ysgol Penrhyncoch wedi bod yn destun llwyddiant eleni. Mae pob dosbarth wedi bod yn cwblhau arolwg teithio dyddiol gan ddefnyddio traciwr siwrnau 'Tali Teithio' ac (pan fydd y tywydd yn caniatáu) mae nifer y disgyblion sy'n teithio'n actif wedi cynyddu tua 50%, sy'n gynnydd mawr i'r gymuned ysgol hon. Llwyddodd Ysgol Penllwyn i gynyddu teithio actif yn ystod 'Cerdded Mawr ac Olwyn Sustrans' ar ddiwedd y flwyddyn, gan gyflawni 30% ar draws y gystadleuaeth, sy'n naid fawr i'r ysgol hon o ystyried bod y llwybr ar hyd Cefnffordd brysur heb groesfannau dan reolaeth. Mae Ysgol Aberporth wedi bod yn hynod lwyddiannus gan gynyddu nifer y beicwyr i'r ysgol nes bod bellach angen mwy o le i storio beiciau.
--	---

Mae Swyddog Siwrneiau Actif wedi cyflwyno sawl sesiwn 'dysgu reidio yn Ysgol Llwyn yr Eos, gyda'r nod o gael holl blant Blwyddyn 5 yn reidio beic i ryw lefel, i'w galluogi i gyd gael mynediad llawn i'w hyfforddiant Beicio Safonau Cenedlaethol drwy Dîm Diogelwch ar y Ffyrdd Cyngor Sir Ceredigion y Gwanwyn nesaf.

Ymunodd Ysgol Llanfarian ac Ysgol Wirfoddol Myfenydd â'r rhaglen ar gyfer blwyddyn academiaidd 25-26.

Cynigiwyd y cynllun 'Beicio i'r Gwaith' i weithwyr Cyngor Sir Ceredigion a bu dwy ffenest ymgeisio yn ystod y flwyddyn.

Hyrwyddo Cynllun

Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg ym mis Mai 2024 i hyrwyddo cwblhau adran Cam 1 y 'Cynllun Cyswllt Teithio Llesol Waunfawr i IBERS'. Gosodwyd llwybr defnydd newydd a rennir yn yr adran hon a oedd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r giât ffrynt yn Ysgol Gynradd Comins Coch. Mae'r llun isod yn dangos disgyblion o'r Ysgol Gynradd yn rhoi 'bawd i fyny' mawr i'r llwybr newydd a oedd hefyd yn ymddangos ar wefannau Cyfryngau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion:



Crëwyd Fideo Hedfan 3D newydd 'Ein Gweledigaeth – Cynigion Llwybrau Teithio Llesol Ardal Aberystwyth' i ddangos sut y bwriedir i gynigion Llwybrau y Dyfodol gysylltu â Llwybrau Presennol i gysylltu'r ardal i'r gogledd o Aberystwyth â Chanol y Dref. Ychwanegwyd hwn at dudalen we Teithio Llesol Cyngor Sir Ceredigion [Teithio Llesol - Cyngor Sir Ceredigion](#) ac fe'i hyrwyddwyd trwy ddatganiad i'r wasg yn y wasg leol a thrwy wefannau Cyfryngau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion.


	Datganiad i'r wasg ym mis Mawrth 2025 i hyrwyddo cynnydd adeiladu ar wahanol gynlluniau a ariennir gan grant yn y flwyddyn ariannol 2024-25 a hefyd trwy wefannau Cyfryngau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion a oedd yn cynnwys y delweddau canlynol: Cynlluniau Teithio Llesol Diweddariad ar y gwaith Gwaith o adeiladu'r llwybr gerllaw TRA487   Llwybr troed newydd yn Rhydyfelin  Gwaith adeiladu llwybr troed Rhiwgoch  Cyngor Sir CEREDIGION County Council  Ariennir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government  TRAFNIDIAETH CYMRU TRANSPORT FOR WALES  CaruLove Ceredigion Ychwanegwyd y diweddariadau hyn ar gynnydd y cynllun hefyd at dudalen we Teithio Llesol Cyngor Sir Ceredigion. Mae datganiadau i'r wasg Cyngor Sir Ceredigion yn cynnwys dyfyniadau gan yr Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon sy'n tynnu sylw at fanteision teithio llesol i iechyd a llesiant ein trigolion, sy'n darparu cysylltedd i gysylltu cymunedau a mynediad at fannau gwyrdd, gan gyfrannu at uchelgeisiau lleol a chenedlaethol ar gyfer lleihau carbon ac Aer Glanach.
Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a	Disgwylir i bob cynllun datblygu newydd o fewn Cyngor Sir Ceredigion ddarparu seilwaith Teithio Llesol ac mae swyddogion yn gwneud sylwadau ar yr holl gynlluniau teithio sy'n cael eu cyflyru drwy'r Broses Gynllunio i sicrhau cydymffurfiaeth.

gwelliannau cysylltiedig	Disgwylir i'r holl ddatblygiadau ddarparu seilwaith Teithio Llesol trwy naill ai gwaith priffyrdd S278 / S38 a / neu gyllid S106. Cwblhau'r gwaith o brynu tir ar gyfer cynllun Llwybr Llyfrgell Genedlaethol Cymru – galluogi gwaith adeiladu i fynd rhagddo yn y flwyddyn ariannol 2025-26 canlynol. Parhau i weithio mewn partneriaeth ag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru i helpu i gyflawni gwaith adeiladu ar ran 'Cam 2' o 'Gynllun Cyswllt Teithio Llesol Waunfawr i IBERS' gerllaw'r TRA487. Gwaith adeiladu pellach wedi'i gynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, gyda'r bwriad o gwblhau'r rhan 'Cam 2' hon. Mae Swyddogion Gwasanaethau Priffyrdd yn ymgymryd â phartneriaeth barhaus gyda Thîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyngor Sir Ceredigion i ddatblygu cynigion ar gyfer ymestyn Llwybr Ystwyth o Gors Caron i Dregaron.
Costau a ysgwyddir ar gyfer cyfleusterau a llwybrau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol	<u>Cronfa Teithio Llesol</u> Grant Dyranriad Craidd (Mae'n cynnwys costau adeiladu mân waith. Mae hefyd yn cynnwys costau datblygu cynlluniau Llwybrau at y Dyfodol h.y. cynlluniau sydd heb eu hadeiladu eto). £359,763.05 Teithio Llesol Cysylltu Waunfawr i IBERS – Adeiladu Cam 3B y Cynllun £400,572.85 <u>Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau</u> Cysylltu Llwybr Troed Rhiwgoch ag Aberaeron – Adeiladu Cam 3 y Cynllun £208,417.05

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth a ganlyn yn rhoi trosolwg o'r seilwaith sydd wedi cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn flaenorol:

Gwariant dangosol ar gyfer cyfleusterau a llwybrau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig sy'n cael eu cyllido neu eu	<u>Cronfa Codi'r Gwastad</u> 'Adfywio Promenâd' Aberystwyth Nod y prosiect hwn oedd trawsnewid Promenâd Aberystwyth yn ofod mwy hygrych, deniadol a chynaliadwy i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. £2,153,868.66
---	--

cyllido'n rhannol gan
drydydd partion.





Grant Craidd Sustrans

Cynllun Llwybr Ystwyth (NCN 81) ger Llanilar

Roedd y cynllun hwn yn cynnwys cyfleoedd i gael gwared ar gatiau a rhwystrau fel rhan o waith brys i atgyweirio difrod erydiad glannau afon ar y Llwybr Ystwyth ac ailagor y llwybr poblogaidd hwn i'r cyhoedd (darperir lluniau yn yr Adroddiad isod).

£46,998.71

Hyd llwybrau
newydd:

- Cerdded
- Beicio
- Cyd-
ddefnyddio

173 metr
Ddim yn berthnasol
290 metr

Hyd y llwybrau wedi eu gwella: - Cerdded - Beicio - Cyd-ddefnyddio	Ddim yn berthnasol Ddim yn berthnasol 33 metr
Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell	Cyswllt Teithio Actif Waunfawr i IBERS– Cam 3B (Cronfa Teithio Llesol) • 290 metr o lwybr defnydd a rennir newydd wedi'i osod. • 1 set o groesfannau palmant cyffyrddiol a chyrbiau isel newydd. • Arwyddion llwybr beicio a cherddwyr newydd wedi'u gosod.  Cynllun Llwybr Troed Rhydfelen a Chysylltu Llwybr Ystwyth (Cronfa Teithio Llesol - Mân Weithiau Craidd) • 170 metr o lwybrau troed newydd wedi'i osod. • 3 twmpath cyflymder sinwsoidaidd newydd. • 2 arwydd rhybuddio twmpath cyflymder newydd. • 3 colofn goleuo newydd. • 2 set o groesfannau palmant cyffyrddiol a chyrbiau isel newydd. • 2 set o gatiau / rhwystrau wedi'u tynnu. • 1 bollard symudadwy newydd gyda'r arwydd '956' wedi'i osod. • 1 set o balmant rhybuddio cerddwyr ag ysgol wedi'i osod. • 1 marciau ffordd i feicwyr "Ildiwch y Ffordd".



Llwybr Ystwyth yn Llanfarian (Cronfa Teithio Llesol - Mân Weithiau Craidd)

- 33 metr o wyneb tarmac newydd wedi'i osod, lle nad oedd yr wyneb wedi'i rwymo o'r blaen.
- Arwyddion newydd wedi'u gosod.
- Gosodwyd suddfan dŵr newydd fel mesur draenio i helpu i atal problemau pwll.

Coedlan Pump, Aberystwyth (Cronfa Teithio Llesol - Mân Weithiau Craidd)

- Cwblhawyd llwybr troed cyswllt i Glwb Pêl-droed Penparcau ac Ardal Gemau Aml-Ddefnydd.
- Gyli newydd wedi'i osod i atal problemau pyllau wrth y cysylltiad â'r llwybr defnydd a rennir.

Llwybr Troed Rhiwgoch Cam 3 (Llwybrau Diogel mewn Cymunedau)

- 182 metr o lwybr troed newydd wedi'i osod.
- 4 colofn goleuo newydd.
- 1 set o groesfannau palmant cyffyrddol a chyrbiau isel newydd.
- 2 folard.
- Cysgodfan feiciau newydd wedi'i gosod yn Ysgol Gynradd Aberaeron.

Llwybr Ystwyth ger Llanilar (Grant Craidd Sustrans)

- Tynnwyd 2 set o gatiau / rhwystrau i wella hygyrchedd wrth groesfan ffordd.
- Gosodwyd 2 folard gydag arwyddion llwybr defnydd a rennir.

	• Gosodwyd arwyddion llwybr beicio a marciau ffordd newydd. • Gosodwyd 2 set o rybuddion ysgol i gerddwyr. • Gosodwyd arwyneb tarmac newydd wrth y ddau fynediad i'r groesfan hon. 
--	--

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

3set o gyfrifwyr cerddwyr Lorawan wedi'u gosod fel rhan o raglen monitro teithio llesol.

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac y gellir ei gael ar ffurf copi caled ar gais, yn unol â Chanllawiau statudol y Ddeddf Teithio Llesol (argraffiad 2021).

Llofnod y Prif Weithredwr:



Enw'r Prif Weithredwr:

Mr Eifion Evans

Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru:

15.10.2025

